# Cytundeb Gwirfoddolwyr Guide Dogs

Heb ymroddiad ac ymrwymiad ein gwirfoddolwyr, ni fuasem yn medru helpu pobl â cholled golwg fyw'r bywyd maen nhw'n ei ddewis. **Diolch o galon am roi o'ch amser i Guide Dogs.**

Mae'r cytundeb gwirfoddolwyr hwn yn gosod egwyddorion yr ydyn ni'n gofyn i chi ymrwymo iddynt wrth wirfoddoli â Guide Dogs, ond hefyd ymrwymiad Guide Dogs i'n holl wirfoddolwyr trwy gydol eich taith gyda ni.

**Gallwch ddisgwyl y byddwn ni'n:**

- Creu polisïau, dulliau gweithredu a safonau'r mudiad mewn perthynas â gwirfoddolwyr a'u dilyn.
- Amlygu Ymddygiadau Guide Dogs ym mhopeth rydyn ni'n wneud, sy'n cynnwys ein hymrwyniad i amrywiaeth, cyfiawnder a chynhwysiant.
- Darparu hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant rôl sy'n eich cyflwyno chi i Guide Dogs, y gwaith rydyn ni'n wneud ac effaith eich gwirfoddoli.
- Neilltuo rheolwr gwirfoddoli ar eich cyfer, a hwn fydd eich prif gyswllt a'ch cefnogaeth ar gyfer eich rôl.
- Rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau sy'n effeithio arnoch fel gwirfoddolwr a/neu gwirfoddoli'n gyffredinol.
- Ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol a gafwyd, a gytunwyd o flaen llaw, fel rhan o'ch gwirfoddoli.
- Ymdrechu i wneud i chi deimlo'n werthfawr a gwybodus ynglŷn â'r gwahaniaeth y mae eich amser, eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad yn ei wneud i fywydau pobl sydd â colled golwg.
- Gofyn am eich adborth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys arolygon, grwpiau ffocws ac ymchwil arall, i'n helpu i ddeall ein gwirfoddolwyr yn well, gwella gwirfoddoli yn Guide Dogs a chasglu barn mewn perthynas â gwaith Guide Dogs.





Guide Dogs is a working name of The Guide Dogs for the Blind Association. Registered Office: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire RG7 3YG.
A company limited by guarantee registered in England and Wales (291646) and a charity registered in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334).

Guide Dogs

- Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth rydych chi wedi’i darparu i siarad â chi am eich rôl(au) presennol a chyfleoedd gwirfoddoli eraill yn Guide Dogs.
- Parchu eich data a’i ddefnyddio yn unol â’n Polisi Preifatrwydd.
- Rhoi safonau uchaf iechyd, diogelwch a lles mewn grym ar draws y mudiad, a’u cynnal, cyhyd ag y mae’n ymarferol resymol, i amddiffyn ein gwirfoddolwyr rhag unrhyw beryglon sy’n gysylltiedig â’u gweithgareddau gwirfoddoli.
- Diogelu unrhyw un sy’n dod i gysylltiad â Guide Dogs.
- Byddwn yn datrys problemau neu gwynion mewn ffordd amserol a theg.
- Darparu yswiriant ar gyfer eich gweithgareddau gwirfoddoli sydd wedi‘u cytuno â Guide Dogs. Nid yw hyn yn cynnwys difrod i eiddo neu niwed personol mewn amgylchiadau ble nad yw Guide Dogs ar fai.

**Byddwn yn disgwyl i chi:**

- Ddarllen a chydymffurfio â phob polisi, dull gweithredu a dogfennau perthnasol rydyn ni wedi eu darparu ar eich cyfer, gan gynnwys casglu a rheoli data yn unol â pholisïau diogelu data, gan ymrwymo i’n hegwyddorion diogelu a dilyn canllawiau Iechyd a Diogelwch.
- Amlygu Ymddygiadau Guide Dogs tra byddwch yn gwneud eich gweithgareddau gwirfoddoli, sy’n cynnwys ymrwymo i amrywiaeth a chynhwysiant.
- Cwblhau pob rhaglen sefydlu a hyfforddi gofynnol, gan gynnwys hyfforddiant gloywi.
- Cyflawni eich gweithgareddau gwirfoddoli o fewn ffiniau eich rôl(au).
- Mynychu goruchwyliaeth a chyfarfodydd ‘dal i fyny’ yn ôl y gofyn ar gyfer eich rôl(au).
- Dwyn unrhyw sylwadau neu broblemau y gallech eu cael i sylw eich rheolwr gwirfoddoli a gadael iddo wybod am unrhyw newid yn eich





Guide Dogs is a working name of The Guide Dogs for the Blind Association. Registered Office: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire RG7 3YG.
A company limited by guarantee registered in England and Wales (291646) and a charity registered in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334).


amgylchiadau neu unrhyw beth a allai effeithio ar eich gwirfoddoli.

- Ymddwyn mewn modd sydd ddim mewn perygl o niweidio enw da yr elusen. Mae hyn yn cynnwys eich rhyngweithiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrafodwch â’ch rheolwr gwirfoddoli bob amser cyn cyfathrebu â’r cyfryngau ynglŷn â Guide Dogs.
- Peidio â defnyddio eich statws fel gwirfoddolwr Guide Dogs na brandio Guide Dogs er manteisio’n fasnachol. Os ydych chi’n meddwl y gall fod gwrthdaro buddiannau rhwng eich gwirfoddoli a’ch buddiannau preifat, dylech roi gwybod i ni’n syth.
- Gweithredu mewn modd diogel i sicrhau bod eich gweithgareddau yn cael eu gwneud heb beryglu eich iechyd, eich diogelwch na’ch lles chi eich hun na phobl eraill.
- Peidiwch â gyrru os nad oes gennych drwydded yrru ddilys, MOT ac yswiriant cyfredol.
- Talwch unrhyw arian rydych chi’n ei godi neu ei dderbyn ar gyfer Guide Dogs cyn gynted ag y bo modd.
- Parchwch gyfrinachedd y mudiad a’r rhai sy’n gysylltiedig â ni.

Nid yw’r cytundeb hwn yn creu unrhyw berthynas gyflogaeth. Nid oes bwriad iddo fod yn gyfreithiol rwymol a gall un ai Guide Dogs neu chi, fel gwirfoddolwr, ei ddiweddu ar unrhyw adeg trwy roi gwybod i’r llall pryd bynnag yr ydych yn dymuno gwneud hynny.

Mae hon yn ddogfen fyw a bydd yn parhau i gael ei diweddaru gan Guide Dogs. Golyga hyn, pryd bynnag y byddwch yn gwirfoddoli, byddwch yn cytuno i gynnal y cytundeb gwirfoddolwyr presennol.

Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau drwy ‘The Guide’, a gallwch hefyd ddod o hyd i unrhyw gopïau sydd wedi’u diweddaru ar [Y Fan Gwybodaeth i Wirfoddolwyr] neu gan eich rheolwr gwirfoddoli.





Guide Dogs is a working name of The Guide Dogs for the Blind Association. Registered Office: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire RG7 3YG.
A company limited by guarantee registered in England and Wales (291646) and a charity registered in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334).

**Rydw i’n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Cytundeb i Wirfoddolwyr.**

Enw:

Cyfeiriad:

Côd post a thref:

Llofnod:

Diwedd y ddogfen.





Guide Dogs is a working name of The Guide Dogs for the Blind Association. Registered Office: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire RG7 3YG.
A company limited by guarantee registered in England and Wales (291646) and a charity registered in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334).